| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **10 Mawrth 2022** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED SIOP RYW, EVA AMOUR, 6 SGWÂR SANTES ANNE, STRYD FAWR, ABERMAW LL42 1DL** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1. Derbyniwyd y cais.

1.1 Gweler wedi'i atodi gais am siop ryw yn 6 Sgwâr Santes Anne, Stryd Fawr, Abermaw, L42 1DL a gyflwynwyd gan David Powley a Daniel Millar, sy'n gweithredu fel DD Trading (NW) Ltd, bellach o'r un cyfeiriad.

1.2 Derbyniwyd a dilyswyd y cais ar 8 Chwefror 2021, ac yn unol â gofynion cyfreithiol gosodwyd hysbysiad ar yr eiddo yn ystod y cyfnod ymgynghori, a rhoddwyd hysbysiad yn y wasg leol yn ogystal.

1.3 Derbyniwyd 82 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ac 8 o sylwadau'n cefnogi'r cais. Mae copïau o'r holl sylwadau wedi'u cynnwys yn atodiad yr adroddiad hwn.

1.4 Mae'r ymgeisydd yn gofyn bod y siop yn cael agor 7 diwrnod yr wythnos, o 10am hyd 6pm rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn a hyd 4pm ar ddydd Sul.

1.5 Penderfynodd yr ymgeisydd agor y siop yn Rhagfyr wrth aros i'r broses o benderfynu ar y cais gael ei chwblhau. Wrth bod angen i'r pwerau disgresiwn i reoli a thrwyddedu sefydliad rhyw gael eu mabwysiadu'n ffurfiol ar gyfer de'r Sir, roedd y busnes yn gallu agor heb ei reoleiddio oherwydd nad oedd y pwerau statudol perthnasol yn dod yn weithredol tan 6 Rhagfyr 2021.

1.6 Mewn e-bost, dyddiedig 6 Mehefin i'r Rheolwr Trwyddedu, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn dymuno i'r Cyngor benderfynu ar y cais yn ôl-weithredol os mai'r penderfyniad yw bod angen trwydded.

## 2. Rheoleiddio sefydliadau rhyw a'r broses drwyddedu

2.1 Mae pum rheswm gorfodol am wrthod cais - os yw'r ymgeisydd

- Yn iau na 18 mlwydd oed
- Ar hyn o bryd wedi cael ei wahardd rhag dal trwydded sefydliad rhyw
- Ddim yn gorff corfforedig ac nad yw'n byw neu nad yw wedi byw yn y DU am y chwe mis cyn dyddiad y cais hwn
- Yn gorff corfforedig sydd ddim wedi'i ymgorffori yn y DU
- Yn y 12 mis cyn dyddiad y cais hwn wedi cael gwrthod caniatâd neu gais i adnewyddu trwydded ar gyfer yr eiddo sy'n destun y cais hwn, oni bai bod y gwrthodiad wedi cael ei wyrdroi mewn apêl

Nid yw unrhyw un o'r rhesymau gorfodol hyn dros wrthod yn berthnasol yn yr achos hwn.

2.2 Gellir ystyried y rhesymau dewisol a ganlyn -

- Os yw'r ymgeisydd yn anaddas ar gyfer dal y drwydded am ei fod wedi derbyn collfarn am drosedd
- Pe bai'r busnes yn cael ei reoli neu ei weithredu er budd trydydd parti fyddai ddim yn derbyn trwydded eu hunain
- Bod nifer y sefydliadau rhyw yn yr ardal leol neu o'r math penodol hwn yn yr ardal leol gyfartal neu'n uwch na'r nifer yr ystyrir yn briodol
- Yn amhriodol o ran:

    i. Cymeriad yr ardal leol berthnasol
    ii. Defnydd yr eiddo yn y cyffiniau
    iii. Gosodiad, cymeriad, cyflwr neu leoliad yr eiddo

3. **Pennu'r ardal leol berthnasol**

3.1 Mae penderfynu beth sy'n cyfrif fel 'ardal leol berthnasol' yn fater i'r aelodau, yn seiliedig ar ffeithiau'r cais. Nid oes yn rhaid diffinio'r ardal leol berthnasol yn glir, ac fe all yr aelodau benderfynu bod yr ardal leol yn yr achos hwn yn cyfeirio at yr ardal sy'n amgylchynu'r eiddo ar neu wrth ymyl Sgwâr Santes Anne, ar y Stryd Fawr yn Abermaw yn yr achos hwn.

3.2 Unwaith y caiff yr ardal leol ei phennu, dylai'r aelodau geisio asesu 'cymeriad' yr ardal leol berthnasol, a faint, os o gwbl, o Sefydliadau Rhyw neu Sefydliadau Rhyw o fath penodol a ystyrir yn briodol ar gyfer yr ardal leol honno. Gall yr Is-bwyllgor gasglu, ar sail y ffeithiau, mai'r nifer briodol o sefydliadau o'r fath yw dim.

3.3 Efallai y byddai'r aelodau yn dymuno ystyried y ffactorau hyn -

- A yw'r ardal gyfagos yn un o natur breswyl yn bennaf?
- A yw'r eiddo'n agos at ysgol neu eiddo a ddefnyddir gan blant neu oedolion bregus?
- A yw'r eiddo wedi'i leoli mewn gofod agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac y mae plant neu oedolion bregus yn mynd iddo'n rheolaidd?
- A yw'r eiddo'n agos i fan addoli?
- A yw'r eiddo o fewn ardal siopa i deuluoedd?

**4. <u>Y Sefyllfa Gyfreithiol a Pholisi'r Cyngor</u>**

4.1 Ar 7 Hydref, mabwysiadodd Cyngor Gwynedd ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (y Ddeddf) fel y'i haddaswyd gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 ("Deddf 2009") i reoleiddio 'Sefydliadau Rhyw', a daeth y system drwyddedu'n weithredol ar 6 Rhagfyr 2021, ar draws ardal Gwynedd. Fel y gŵyr aelodau'r pwyllgor hwn, yn flaenorol, nid oedd darpariaethau'r Ddeddf, ac felly'r system drwyddedu, ond wedi'i mabwysiadu yn ardal Arfon o'r Sir, cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 oherwydd bod un cais siop ryw hanesyddol wedi'i dderbyn ar gyfer yr ardal honno. Dim ond wrth i'r Gwasanaeth Trwyddedu baratoi i drefnu gwrandawiad ar gyfer y cais hwn, nôl ym mis Ebrill 2021 y daeth y sefyllfa hon i'r amlwg.

4.2 Nawr bod darpariaethau'r Ddeddf wedi'u mabwysiadu'n llawn, mae'n bosib cyfeirio'r cais a dderbyniwyd i gael ei benderfynu gan y pwyllgor hwn, gan ystyried y ddeddfwriaeth, Datganiad y Cyngor ar Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw a'r holl sylwadau a dderbyniwyd

ar y cais. Fel y nodwyd eisoes, mae'r ymgeisydd wedi rhoi caniatâd i'r cais yma gael ei benderfynu yn ôl-weithredol.

4.3 Gall Sefydliad Rhyw fod un ai'n Siop Ryw neu'n Sinema Ryw; cais am Siop Ryw yw hwn. Mae siop ryw yn eiddo a ddefnyddir ar gyfer busnes sy'n cynnwys gwerthu nwyddau rhyw i raddau sylweddol.

4.4 Gan fod y cais wedi dilyn gweithdrefnau sefydledig o ran ei dderbyn, yr ymgynghori a'i hysbysebu, sydd wedi cael eu hymgorffori i'r Polisi a fabwysiadwyd yn ddiweddar, tybir bod y cais yn ddilys ac yn barod i gael ei benderfynu gan bwyllgor.

4.5 Mae unrhyw unigolyn sy'n dymuno rhedeg Sefydliad Rhyw yn unol â diffiniad y Ddeddf angen trwydded sefydliad rhyw, oni bai bod yr awdurdod priodol wedi hepgor y gofyn am drwydded. Gan fod darpariaethau'r Ddeddf wedi cael eu mabwysiadu'n llawn erbyn hyn ni all unrhyw fusnes o'r fath weithredu yn ardal Gwynedd heb drwydded ddilys. Gan fod y busnes hwn wedi ymgeisio am drwydded yn ôl ym mis Chwefror 2021, cyn mabwysiadu'r system drwyddedu i holl ardal Gwynedd, nid oedd gan y Cyngor unrhyw bwerau i atal y busnes rhag agor heb drwydded ar y pryd. Deellir bod y busnes wedi bod yn Masnachu ers mis Rhagfyr 2021.

4.6 Os caniateir trwydded, mae'r Polisi'n caniatáu ar gyfer ychwanegu amodau a/neu gyfyngiadau ar y drwydded a gall hyn gynnwys amodau o ran oriau agor; arddangosfeydd a hysbysebion ar y sefydliad; pa mor weledol yw tu mewn y siop o'r tu allan ac ati.

4.7 Ni ellir ond caniatáu trwydded ar gyfer Sefydliad Rhyw am gyfnod o 12 mis. I adnewyddu trwydded Sefydliad Rhyw byddai'n rhaid dilyn yr un broses ymgeisio fel cais newydd a byddai'n cael ei gyflwyno bob tro i'r Pwyllgor hwn er penderfyniad.

## 5. Sylwadau cychwynnol a dderbyniwyd

5.1 Derbyniwyd 90 o sylwadau, gyda 82 yn gwrthwynebu'r Drwydded arfaethedig ac 8 yn cefnogi'r bwriad. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hatodi yn atodiad yr adroddiad hwn. Ymysg y sylwadau gan drigolion, derbyniwyd gwrthwynebiadau hefyd gan ddiaconiaid Eglwys Crist, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Cyngor Cymuned ac offeiriaid lleol. Cyflwynwyd sylwadau ar y cais gan Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Adran Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach y Cyngor gan gadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiadau i'r cais (gweler atodiad).

5.2 Wedi trafodaethau gyda'r ymgeisydd, a gan fod 11 mis wedi mynd heibio ers cynnal yr ymgynghoriad ar y cais, cafodd y penderfyniad ei wneud i ganiatáu i holl ymatebwyr y cais ailystyried eu sylwadau. Anfonwyd llythyr ar 28 Ionawr at bawb a ymatebodd yn gychwynnol, i alluogi'r cyfle i addasu sylwadau, neu i ddileu eu sylwadau yn gyfan gwbl.

5.3 Derbyniwyd 22 o sylwadau, 20 yn cadarnhau eu gwrthwynebiad i'r cais, gyda 5 ohonynt yn cyflwyno sylwadau wedi'i haddasu. Roedd un ymatebwr wedi gofyn am ddileu ei wrthwynebiad, yn seiliedig ar y ffaith nad oedd yr arddangosfa ffenestr siop yn peri tramgwydd fel yr ofnid i ddechrau. Roedd un ymatebwr oedd yn cefnogi'r cais wedi gwneud sylwadau ar y broses â ddilynir er mwyn penderfynu ar y cais.

5.4 Felly, i sicrhau tegwch, penderfynwyd y gall yr ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth o enwau unigolion oedd yn gefnogol i'r busnes a'r cais trwyddedu. Roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno sylwadau o gyfryngau cymdeithasol, ac enwau unigolion oedd wedi cefnogi deiseb ar-lein, yn ogystal â deiseb bapur wedi'i llofnodi'n lleol.

## 6. Seiliau'r Gwrthwynebiadau a dderbyniwyd

6.1 Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n seiliedig ar bryderon ynghylch lleoliad y siop ryw drwyddedig arfaethedig. Y prif wrthwynebiadau a godwyd amlaf yw -

- Ni fyddai'r drwydded arfaethedig yn cydweddu â chymeriad tref glan môr fechan sy'n denu teuluoedd.
- Mae'r siop wedi'i lleoli yng nghanol ardal fasnachu'r dref, drws nesaf i siop elusen lle mae oedolion bregus yn aml yn gweithio.
- Mae The Factory Shop union gyferbyn sy'n gwerthu nwyddau cymysg ac yn denu siopwyr teuluol.
- Mae croesfan i gerddwyr (yr unig un ar y stryd fawr) o'r Factory Shop dros y ffordd yn union at flaen y siop arfaethedig, ac mae plant ysgol yn defnyddio'r groesfan hon am fod y ffordd yn un brysur. Yn aml yn ystod amseroedd prysur, mae plant ac oedolion yn gorfod aros y tu allan i flaen y siop cyn medru croesi'r ffordd brysur.
- Mae Eglwys Crist wrth ymyl y Factory Shop; mae'r eglwys yn cael ei defnyddio ar gyfer addoli ac ar gyfer gwasanaethau crefyddol yn ogystal â dibenion cymunedol eraill.
- Nodwyd gan lawer bod angladdau a phriodasau'n cael eu cynnal yn aml yn y Capel, ac y byddai cael siop ryw gyferbyn ag ef yn annymunol i alarwyr ac addolwyr eraill. Mae'r cais yn datgan y byddai'r siop ar agor ar ddydd Sul.
- Mae'r Geidiaid a'r Brownis yn defnyddio'r Capel i gyfarfod a chynnal gweithgareddau.
- Mae lleoedd i deuluoedd eistedd yn yr awyr agored yn Sgwâr Santes Anne, ac mae teuluoedd yn mynd yna'n aml.
- Oddeutu 200 llath i ffwrdd mae canolfan chwarae i blant o'r enw Bendigedig (dylai aelodau'r pwyllgor nodi bod yr ymgeisydd wedi derbyn gwybodaeth bod y busnes yma erbyn hyn wedi cau felly dylai'r sylwadau a gyflwynwyd gan berchnogion y busnes, a'r sylwadau ynghylch y busnes yma gael eu diystyru).
- Mae fflatiau preswyl uwchben nifer o'r eiddo manwerthu ar y Stryd Fawr, a nifer o deuluoedd ifanc yn byw yn agos i'r siop.
- Mae'r stryd fawr wastad yn brysur gyda theuluoedd ifanc yn dod o'r traeth yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae'n amhosib osgoi lleoliad y siop.
- Mae tafarn ar un ochr i'r siop gydag ardal eistedd y tu allan.
- Honna'r ymgeisydd fod yna ddrws ochr digon disylw i gael mynediad i'r siop, ond mae llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn gamarweiniol, oherwydd mai drws ar gyfer y fflat sydd uwchben y siop yw hwn, a cheir mynediad i'r siop trwy ddrws cyfochrog o'r cyntedd.
- Cred rhai ymatebwyr y defnyddir yr enw 'Eva Amour' fel gorchudd brandio ac nad yw'r cais yn adlewyrchu'n gywir y cynnyrch a'r digwyddiadau eithafol y mae'r cwmni DD Trading (NW) Ltd. yn arbenigo ynddynt.
- Mae'r feithrinfa Oasis Nursery wedi mynegi pryder ei bod yn anodd osgoi lleoliad y siop wrth gerdded o amgylch y dref gyda'r plant sydd yn eu gofal.
- Noda rhai ymatebwyr na fyddai'r ymgeisydd yn datgan bod mynediad yn cael ei reoli trwy ddrws ochr oni bai bod posibilrwydd o niwed.

- Noda ymatebwyr y byddai'r ymgeisydd yn dymuno hyrwyddo'r siop fel cyrchfan, ond mae hyrwyddo Abermaw fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth rhyw yn groes i bob dim y mae Abermaw yn dymuno ei hyrwyddo.
- Mae'n rhaid i blant ysgol gynradd gerdded heibio'r siop i gyrraedd y trên, yn ogystal â phlant ysgol uwchradd.
- Cynhelir marchnad yng nghanol y dref ddwywaith yr wythnos yn rheolaidd.

6.2 Derbyniwyd sylwadau eraill yn holi'r hyn a ganlyn -

- P'un a fyddai'r siop mewn gwirionedd yn denu cymaint o gyflogaeth â'r hyn a nodwyd yn y cais. Yn realistig, honnir bod hyn gyfystyr ag un swydd lawn amser, ac mae llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod effaith negyddol y busnes ar y dref yn gorbwyso'r buddion o bell ffordd.
- Mae'r honiad y gellir darparu cwnsela ar iechyd rhywiol ac iechyd meddwl yn cael ei amau gan nifer o'r ymatebwyr, gyda nifer yn nodi mai'r Meddygon Teulu lleol a gweithwyr proffesiynol cymwysedig eraill fyddai orau i ddarparu gwasanaeth o'r fath
- Mae nifer o'r gwrthwynebwyr yn amau honiad yr ymgeiswyr o ran faint o arian fydd y busnes yn ei wario yn y swyddfa bost leol.
- Mae'r ymatebwyr yn ofni y bydd yn denu'r math anghywir o ymwelwyr i'r dref glan môr deuluol boblogaidd hon - ac y bydd yn troi yn gyrchfan i bartïon stag a phlu ac ati.
- Mae nifer o ymatebwyr yn credu y bydd y busnes, oherwydd ei leoliad, yn cael effaith andwyol ar werthiant busnesau gerllaw, ac y byddai'n peri i rai cwsmeriaid beidio â phrynu ganddynt.
- Nododd nifer o ymatebwyr y dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori yn sgil y cyfnod clo i alluogi mwy o bobl i ymateb cyn y gwrandawiad.
- Oherwydd ei natur, nid yw'r math hwn o sefydliad yn cynnwys mwyafrif y boblogaeth a'r ddemograffeg leol.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus y byddai'r math o ddigwyddiadau/gweithdai yn adlewyrchu'r math o ddigwyddiadau mae'r cwmni yn eu cynnal yn eu sefydliad arall yng Nghaer.
- Mae un ymatebwr, ar ôl cynnal rhywfaint o ymchwil, yn amlygu pryder bod y cais yn gorddatgan hyfywdra'r cwmni.
- Mae ymatebwyr yn nodi eu bod wedi teimlo'n chwithig wrth egluro natur y busnes arfaethedig i blant chwilfrydig sydd wedi darllen rhai o'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae pryder wedi'i ddatgan nad yw'r ymgeisydd o bosib yn disgrifio gwir natur a diben y siop fanwerthu yn Abermaw.

6.3 Dylai'r aelodau ystyried yr holl sylwadau yng nghyd-destun y seiliau gorfodol a dewisol dros wrthwynebu yn y Ddeddf, a amlinellwyd eisoes yn adran 2 yr adroddiad hwn. Dylent hefyd ystyried y cais a'r sylwadau yng nghyd-destun Polisi'r Cyngor. Yn benodol, dylid ystyried yn ofalus addasrwydd lleoliad y busnes fel siop ryw drwyddedig. Ni ddylai'r gwrthwynebiadau fod yn seiliedig ar seiliau/gwerthoedd moesol ac ni ddylai aelodau wrthod y cais ar sail o'r fath.

6.4 Roedd y sylwadau wedi eu diweddaru wedi cynnwys y sylwadau a ganlyn -

- Roedd ychydig o ymatebwyr wedi nodi bod gan berchennog y siop ddiffyg ystyriaeth ar gyfer teimladau'r gymuned wrth agor y busnes cyn bod y cais wedi'i benderfynu. Roedd yr unigolyn yn cydnabod nad oedd unrhyw rwystr cyfreithiol yn atal y siop rhag agor ar y pryd.
- Ers y sylwadau cychwynnol, mae'r swyddfa bost wedi cau, neu yn y broses o gael ei chau ac mae cownter y swyddfa bost yn cael ei symud i'r siop Spar leol. Mae ymatebwyr yn bryderus am y pwysau ychwanegol y bydd archebion ar-lein o Eva Amour yn eu rhoi ar y cownter swyddfa bost sydd ar wasanaeth wedi ei gwtogi yn y dref.
- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder am rai casgliadau sy'n cael eu gwneud ar dudalen Rhwydweithio Abermaw ar Facebook gan yr ymgeisydd o ran yr effeithiau posib o wrthod trwydded; yn benodol y byddai'n fwy anodd rheoleiddio beth mae'r ymgeisydd yn arddangos yn ffenestr yr eiddo.

6.5 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r gwrthwynebiadau ysgrifenedig (heb gynnwys manylion personol) wedi'u hatodi i'r adroddiad.

**7. Sylwadau a dderbyniwyd i gefnogi'r cais**

7.1 Derbyniwyd 8 sylwad yn cefnogi'r cais. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r siop yn ehangu amrywiaeth y siopau oedd ar gael yn Abermaw trwy gydol y flwyddyn, ac na fyddai'n cystadlu â busnesau eraill ac y byddai'n sicrhau bod yna un siop wag yn llai yn y dref. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau wedi eu diweddaru gan ymatebwyr oedd yn gefnogol o'r cais. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor yn amlinellu'r gefnogaeth ar gyfer y busnes yn y gymuned ehangach a thu hwnt.

7.2 Mae manylion llawn y sylwadau yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

**8. Argymhelliad**

8.1 Mae'r cais wedi cael ei ystyried, ynghyd â'r gofynion cyfreithiol, Datganiad y Cyngor ar Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw, a'r holl sylwadau a wnaed ar y cais. **Argymhellir i'r Pwyllgor wrthod y cais ar y sail nad yw'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal gyfagos a bod lleoliad arfaethedig yr eiddo yn agos i eiddo a fynychir gan blant ac oedolion bregus.**